***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 130

# Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2008

## RHAN 7

*Cronfa ddata ganolog*

### Stocrestr o anifeiliaid

**26.**—(1) At ddibenion Erthygl 7(2) o Reoliad y Cyngor, mae'n rhaid i geidwad sy'n cadw anifeiliaid yn barhaol wneud stocrestr o nifer yr anifeiliaid ar ei ddaliad ar 1 Ionawr bob blwyddyn.

(2) Rhaid i geidwad ddarparu canlyniad y stocrestr flynyddol i Weinidogion Cymru erbyn 1 Chwefror bob blwyddyn.

### Cyflenwi gwybodaeth

**27.**—(1) Ar ôl derbyn hysbysiad o dan Erthygl 8(2) o Reoliad y Cyngor bod person wedi dod yn geidwad ar ddaliad, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i baragraff (2), ddyrannu nod diadell mewn perthynas â phob diadell o ddefaid ar y daliad a nod geifre mewn perthynas â phob geifre ar y daliad.

(2) Lle bo'r daliad yn lladd-dy neu'n farchnad, rhaid i Weinidogion Cymru ddyrannu nod diadell neu nod geifre ond dim ond os ydynt yn ystyried ei bod yn briodol i wneud hynny.

(3) Rhaid i'r ceidwad hysbysu Gweinidogion Cymru mewn ysgrifen am unrhyw newid yn yr wybodaeth a bennir yn Erthygl 8(2)(a) o Reoliad y Cyngor o fewn 30 diwrnod i unrhyw newid o'r fath.